

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-2023

Tabl o'r Cynnwys

Tudalen Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd y Tribiwnlys – Carol Cobert	3
Rhagair gan y Prif Weithredwyr	4
1. Llwyth gwaith, apelau pellach a chwynion	5
2. Aelodaeth	7
3. Cyngor Llywodraethu	8
4. Staffio	9
5. Ystadau a chyfleusterau	10
6. Cyllid	11
Datganiadau wedi'u llofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol (angenrheidiol dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)	
Datganiad Llywodraethu	13
Datganiad Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifeg	14

Atodiadau

A	Niferoedd cyfarfodydd y tribiwnlys ac achosion wedi'u rhestru	16
B	Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd diwethaf	17
C	Data Clirio Apêl 2022/2023	18
D	Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) – tabl canlyniadau	19
E	Diffiniadau KPI ar gyfer 2023/24	20
F	Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2023)	21
G	Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2022/2023	22
H	Cyfanswm y gwariant – ffigurau cymharol y deng mlynedd diwethaf	23
I	Strwythur y Sefydliad	24

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn wynebu cyfnod newydd yn ei hanes gydag Andrew Shippersides yn ymddeol ar ôl 10 mlynedd fel Prif Swyddog Gweithredol (PSG) a phenodi Carolyn Dawson yn Brif Weithredwr. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi colli aelodau a chadeiryddion wrth i'w hamser penodedig ddod i ben. Hefyd rydym wedi gweld lleihad yn nifer y staff (traean) sydd wedi creu pwysau ar y staff sy ar ôl. Mae'n hanfodol i ni recriwtio nid yn unig aelodau ond hefyd staff i leihau'r pwysau oddi mewn i'r gwasanaeth wrth i ni wynebu cynnydd yn y llwyth gwaith yn y dyfodol. Yn ystod yr amser caled yma rydym wedi rheoli ein gwaith yn effeithlon dros ben. Mae denu aelodau newydd wedi bod yn broblematig gan fod aelodaeth yn gwbl wirfoddol a di-dâl. Mae'n bosibl iawn mai dyma ran o'r broblem wrth recriwtio aelodau newydd.

Mae hyfforddiant i'r aelodau a'r cadeiryddion wedi parhau yn ystod y flwyddyn ac rwy'n falch fod aelodau wedi datblygu sgiliau o ran mynychu tribiwnlysoedd rhithiol. Mae'r defnydd o dechnoleg TG wedi newid pwyslais y Tribiwnlys wrth i'r staff ddatblygu dulliau o wella hyfforddiant yr aelodau trwy ddefnyddio fideos y mae modd mynd atyn nhw trwy wefan TPC.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd lleihad yn nifer yr apelau sy'n golygu nad yw'r aelodau wedi eistedd mor aml â'r blynyddoedd blaenorol, ond mae'n anochel y bydd hyn yn newid gyda chynnydd mewn llwythi gwaith. Fodd bynnag, mae'n dda gen i fod ein busnes craidd wedi cael ei weithredu'n drylwyr ac yn effeithlon gyda nifer y cwynion a'r atgyfeiriadau i'r llysoedd uwch yn eithriadol o isel.

Mae'r Cyngor Llywodraethu wedi mynd i'r afael â'i rôl yn hynod o effeithlon gan weithio'n dda gyda'r PSG a'r aelodau staff. Mae'r Cyngor Llywodraethu yn ymwybodol o ba mor dynn yw'r gyllideb ac mae'n debygol fod y Tribiwnlys wedi cyrraedd pwynt erbyn hyn lle bydd angen cynnydd yn ei adnoddau er mwyn cwrdd â her Ailbrisio'r Dreth Gyngor 2025.

Mae'r aelodaeth, sy'n gweithio'n ddi-dâl, yn cyflawni swyddogaeth broffesiynol mewn gwrandawiadau ac mae'n gosteffeithiol. Tra'n diolch i'r aelodau hynny nad oeddynt am gael eu hailbenodi a'r rhai a ymddiswyddodd, rwyf yn creosawu'r aelodau newydd a benodwyd a'r cadeiryddion sydd newydd eu hethol i'r gwasanaeth. Rwyf yn diolch i'r PSG sydd newydd ymddeol ac yn croesawu Carolyn Dawson fel ein PSG newydd. Mae gan Carolyn brofiad helaeth mewn swydd uchel yng ngwaith y Tribiwnlys ac rwyf yn gwbl ffyddiog y bydd hi'n llywio'r Tribiwnlys trwy ei gyfnod nesaf.

Diolchaf i aelodau'r Cyngor Llywodraethu am eu cefnogaeth a hefyd i'r Cadeiryddion, yr aelodau a'r staff sydd gyda'i gilydd wedi cyfrannu at y gwasanaeth effeithlon ac effeithiol a roddwyd gan TPC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth

Carol Cobert

Llywydd - Tribiwnlys Prisio Cymru

Rhagair gan y Prif Weithredwyr

Y Prif Weithredwr sy'n ymadael, Andrew Shipsides

Rwyf yn trosglwyddo'r awenau o ran cwblhau'r adroddiad blynyddol hwn i'm cydweithiwr tymor hir, ac erbyn hyn fy olynydd, Carolyn Dawson.

Roeddwn i yn y swydd yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn ond erbyn hyn, rwyf wedi ymddeol. Nodweddwyd fy stiwardiaeth dros y deng mlynedd diwethaf gan yr angen i gyfyngu ar wariant yn unol â lleihad cyffredinol bach iawn o ran gofynion y llwyth gwaith dros y cyfnod hwnnw. Cyrhaeddais ar adeg pan oedd gan bolisi cyni ddylanwad enfawr ar wasanaethau cyhoeddus; ac rwyf wedi gorfod torri ein cot yn ôl y brethyn o ganlyniad i hynny. Credaf ein bod fel corff wedi ymdopi'n dda iawn yn ystod amserau anodd. Mae Atodiadau B a H yn dangos hyn yn glir. Dengys Atodiad B ein bod wedi cynnal ein trwybwn (er gwaethaf lleihau ein staff o draean er mwyn cadw cap ar ein gwariant); a dengys Atodiad H ein bod wedi cadw'r cap arno'n dynn.

Bellach, rydym yn agosáu at bwynt lle bydd gofynion llwyth gwaith yn newid yn sylweddol. Mae'r Gweinidogion wedi cyhoeddi y caiff pob eiddo domestig ei ailbrisio at ddibenion y Dreth Gyngor. Mae'n anochel y daw cynnydd mawr ym maint ein gwaith yn sgil hyn. Bydd gan Carolyn heriau gwahanol i'r rhai y des i ar eu traws. Dymunaf bob llwyddiant iddi wrth iddi ddelio â'r dirwedd newydd sydd o'n blaenau.

Y Prif Weithredwr sy'n dod i mewn, Carolyn Dawson

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Andrew Shipsides am ei ymrwymiad i Dribiwnlys Prasio Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf pan oedd yn Brif Weithredwr ar y corff hwn. Diolchaf iddo am y cyngor a'r wybodaeth mae wedi eu rhoi i ni yn ystod ei gyfnod wrth y llyw. Mae cynnwys yr adroddiad yn cynrychioli i'r dim y gwaith mae wedi bod yn glwm wrtho ac wedi'i reoli gyda brwdfrydedd mawr.

Fel y Prif Weithredwr sy'n 'dod i mewn', byddwn yn cytuno â'm rhagflaenydd fod cyfnod heriol o flaen Tribiwnlys Prasio Cymru. Gyda dau gylch ailbrisio yn digwydd un wrth gwt y llall, ni ellir amau y gwelwn gynnydd yn lefelau'r apelau dros y blynyddoedd i ddod. Nid oes modd rhagweld sut a phryd y bydd hyn yn amlygu ei hun. Rydym yn ffodus yn wir fod gennym dîm o staff ymroddedig ac aelodaeth deyrngar, er bod eu nifer yn isel iawn, rwyf yn ffyddiog - o gael adnoddau digonol - y medrwn ymdopi â beth bynnag sydd o'n blaenau.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Cyngor Llywodraethu i symbylu newid cadarnhaol ac mae'r heriau a ddaw yn sgil fy rôl newydd yn rhai cyffrous.

1 Llwyth gwaith, apelau pellach a chwynion

Llwyth gwaith

- 1.1 Rhestrododd y Tribiwnlys 3,444 o achosion ardrethu eleni; 1071 o achosion prisio treth gyngor; a 118 o fathau eraill o apêl (materion yn ymwneud ag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn bennaf, gan gynnwys apelau cynllun gostyngiadau). Mae'r lefelau hyn yn hynod o debyg i'r flwyddyn flaenorol ac maent yn cynrychioli trwybwn sefydlog yn unol â'r adnoddau presennol. Rhoddir manylion am gyfarfodydd y tribiwnlys a'r achosion a restrwyd yn Atodiad A.
- 1.2 Cliriwyd 19,379 o apelau ardrethu. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn apelau a gyflwynwyd ar sail *newid sylweddol mewn amgylchiadau* yn ystod pandemig COVID a chawsant eu tynnu yn ôl yn ystod y flwyddyn gan fod *Deddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021* wedi eu gwneud yn aneffeithiol. Clywyd nifer fach o achosion prawf (yn Nhribiwnlys Prisio Lloegr) yn gynnwys yn y flwyddyn; fodd bynnag, methon nhw ac nid apelwyd yn eu herbyn yn yr uwch lysoedd. O ganlyniad, tynnodd y mwyafrif helaeth o apelyddion (a gynrychiolwyd gan gwmnïau mawr o syrfewyr ardrethu proffesiynol) eu hachosion yn ôl.
- 1.3 Cliriwyd 1,216 o apelau prisio treth gyngor, sy'n dangos fod nifer (gymharol fach) o achosion wedi'u datrys heb i'r Tribiwnlys orfod eu rhestru. Datryswyd 114 o fathau eraill o apelau; dengys hyn fod angen i'r Tribiwnlys restru bron pob un o'r mathau hyn o achosion er mwyn iddynt gael eu datrys.
- 1.4 Rhoddir ffigurau manwl ar lwythi gwaith yn Atodiadau B ac C. Mae Atodiad B yn cyflwyno ffigurau cymharol yn erbyn y pedair blynedd diwethaf ac mae Atodiad C yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau eleni.
- 1.5 Mae'r niferoedd a gariwyd ymlaen i 2023-24 yn parhau'r duedd sydd ychydig tuag i lawr ac wedi bod mewn lle am y blynyddoedd diwethaf. O ddiddymu effaith pandemig COVID ar apelau ardrethu, gellir gweld fod y ffigur a gariwyd ymlaen dipyn yn llai na'r blynyddoedd blaenorol (sef 6,500 o'u cymharu â 9,000+). Mae nifer yr achosion Prisio Treth Gyngor a gariwyd ymlaen wedi ymsefydlu eto i ychydig o dan 400, ac i bob apêl arall mae'r ffigur o 60 o fewn yr ystod normal o 50 i 80.
- 1.6 Cyflawnodd y Tribiwnlys chwech o'i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) eleni. Mae un o'r targedau a fethwyd yn ymwneud â nifer y ceisiadau am adolygu penderfyniadau mewn achosion o Atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor. Cyfradd y ceisiadau oedd 11% (mwy na dwbl targed y KPI o <5%). Gwnaed bron pob un o'r ceisiadau ar y sail fod "budd cyfiawnder yn gofyn am adolygiad"; fodd bynnag dim ond un o'r rhain oedd yn llwyddiannus. Ymddengys y gall apelyddion yn yr achosion hyn weld y sail hon (a ganiateir gan reoliad statudol) fel un sy'n cynnig cyfle eang iawn i ailarchwilio eu hachos os ydynt wedi colli. Nid oes cost ariannol yn glwm wrth gyflwyno cais am adolygiad. Os yw lefel y ceisiadau yn cynyddu oherwydd bod y sail hon yn cynnig llwybr rhwydd i lunio cais, gall fod angen adolygu'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn yn y dyfodol.

- 1.7 Mae'r ddau darged arall a fethwyd yn ymwneud ag amseroldeb y rhestru. Roedd hyn yn nodwedd yn adroddiad y llynedd, a rhagwelwyd y llynedd y byddai'r sefyllfa yn parhau eleni – ond y dylai wella. Yn wir, mae'r ffigurau wedi gwella o'u cymharu â'r llynedd. Dengys y ffigurau ein bod yn mynd yn ôl yn araf bach i lefelau arferol ar ôl ergyd 18 mis COVID a arafodd amseroldeb y rhestru yn ddifrifol. Cafodd ychydig o dan 74% o'r apelau ardrethu a gofrestrwyd eu rhestru o fewn wyth wythnos o ddyddiad targed rhaglennu TPC, o'u cymharu ag ychydig o dan 70% y llynedd (nod y KPI arferol yw 95%). Cliriwyd ychydig dros 89% o'r apelau treth gyngor o fewn 12 mis o'u derbyn gan y Tribiwnlys, o'u cymharu â 77% y llynedd (nod y KPI arferol yw 95%). Dangosir tabl llawn y canlyniadau KPI yn Atodiad D ac mae'r diffiniadau ar gyfer 2023-24 yn Atodiad E. Mae'r Tribiwnlys wedi penderfynu cadw'r targedau rhestru yn 95% fel bod modd mesur y cynnydd yn ôl i'r ffigur perfformiad hwnnw.

Apelau pellach

- 1.8 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd dwy apêl yn erbyn penderfyniadau TPC i'r Uwch Dribiwnlys (achosion ardrethu) a chyflwynwyd un apêl i'r Uchel Lys (achosion treth gyngor).

Cwynion

- 1.9 Ni chodwyd unrhyw gwynion yn erbyn y Tribiwnlys gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eleni.

2 Aelodaeth

- 2.1 Cafwyd cynnydd o un yn yr aelodaeth erbyn 31 Mawrth 2023 (o 71 i 72). Penodwyd chwech aelod newydd yn ystod y flwyddyn ond collwyd pump hefyd. Fodd bynnag, y diwrnod canlynol (1 Ebrill 2023) daeth 12 aelodaeth i ben gyda dwy aelodaeth newydd yn dod i rym. O ganlyniad, dyma'r lefel isaf o ran aelodaeth a gofnodwyd gennym erioed. Felly y ffigur ar ddechrau blwyddyn weithredol newydd 2023-24 yw 62. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blynyddol diweddar, achoswyd y golled net gyffredinol mewn aelodaeth yn sgil cyflwyno terfyn uchafswm gwasanaethu gorfodol - a gyflwynwyd gan newid rheoliad statudol yn 2017. Mae hyn wedi arwain at golli aelodau a fyddai wedi medru parhau pe na fyddai terfyn ar y cyfnod gwasanaethu ac a fyddai'n dymuno parhau. Unwaith eto fel y nodwyd mewn adroddiadau blynyddol diweddar, mae recriwtio yn flaenoriaeth weithredol ers rhai blynyddoedd ond mae wedi bod yn anodd denu aelodau newydd - o bosibl gan nad yw TPC, yn wahanol i driwlysoedd eraill Cymru, yn talu ffioedd. Mae aelodaeth yn gwbl wirfoddol ac yn ddi-dâl, ac eithrio talu treuliau.
- 2.2 Mae'r Tribiwnlys wedi parhau'r trafodaethau gyda'i dîm noddi yn Llywodraeth Cymru am broblem recriwtio - ac rydym wrthi'n ddygn yn mynd ar ôl y posibilrwydd o alw ar arbenigedd yn adran Cyfathrebu Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, archwilir y syniad o ddiddymu'r rheol statudol darfol a gyflwynwyd yn 2017. Byddai diddymu'r rheol yn gwella'r gyfradd bresennol o golledion. A bwrw y caiff eiddo domestig ei ailbrisio at ddibenion treth gyngor yn 2025, mae'r Tribiwnlys wedi cyrraedd pwynt erbyn hyn lle mae angen iddo ddechrau ailadeiladu'r niferoedd er mwyn ymdopi â llwyth tebygol o apelau newydd unwaith y bydd y rhestr brisio Treth Gyngor newydd yn mynd yn fyw. Ni fyddai aelodath o 60 yn ddigon i ddiwallu gofynion llwyth gwaith ar y pwynt hwnnw. Mae'r Tribiwnlys wedi gosod targed i'w hun o gynnydd net yn yr aelodath yn y flwyddyn a ddaw o ddeg - gyda deg arall o bosibl yn y flwyddyn ganlynol.
- 2.3 Mae'r newidiadau bach yn yr aelodaeth eleni wedi esgor ar broffil oedran ychydig yn iau yn gyffredinol (mae'r categori dros-70 oed wedi newid o gynrychioli 62.5% o gyfanswm yr aelodath y llynedd i 59.7% eleni). Mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau wedi aros fwy neu lai fel ag yr oedd (3:1 – gwryw i fenyw). Gweler Atodiad F am fanylion y proffil cyfredol. Mae 25% o'r aelodaeth yn rhugl yn y Gymraeg (sy'n ostyngiad ar ffigur y llynedd o 28%).

3 Cyngor Llywodraethu

- 3.1 Mae datganiad llywodraethu'r Tribiwnlys ar dudalen 13 yr adroddiad hwn.
- 3.2 Arweinir y Cyngor Llywodraethu gan Lywydd y Tribiwnlys, Carol Cobert. Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd hon, ailetholwyd Carol Cobert i'r swydd am gyfnod pellach o dair blynedd (o 1 Ebrill 2023). Deiliaid eraill y Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd:
- | | | |
|-------------------|---|----------------------------|
| Mr David Evans | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr Rhys Prytherch | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr David Subacchi | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr Russell Lawson | - | Penodai Llywodraeth Cymru |
- 3.3 Cyfarfu'r Cyngor Llywodraethu chwe gwaith yn ystod y flwyddyn (Ebrill, Mehefin, Hydref, Rhagfyr, Chwefror a Mawrth). Ar ben hynny cynhaliodd baneli penodi ym Mehefin, Rhagfyr, Chwefror a Mawrth. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn gyfan gwbl dros Zoom neu yn hybrid. O ganlyniad roedd cost llywodraethiant y flwyddyn yn isel dros ben (0.28% o gyfanswm gwariant y corff).
- 3.4 Cynhaliodd y Cyngor Llywodraethu ddiwrnod cyfweld ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol ym mis Chwefror. Fodd bynnag ni phenododd neb i'r swydd a dewisodd ei hailhysbysebu.

4 Staffio

- 4.1 Ar ddechrau'r flwyddyn roedd 14 swyddog llawn amser mewn swydd (3 yn y Tîm Rheoli Gweithredol, 8 yn Nhîm Clercod y Tribiwnlys, a 3 yn y Tîm Cefnogaeth Weinyddol). Yn ystod y flwyddyn, gadawodd dau glerc tribiwnlys a recriwtiwyd un. Cymerodd un uwch glerc tribiwnlys ymddeoliad hyblyg ar ddiwedd y flwyddyn, gan gamu i lawr i rôl clerc tribiwnlys rhan amser (0.8 cyfwerth ag amser llawn). Dyrchafwyd aelod o dîm y clercod i Uwch Glerc er mwyn cynnal strwythur y tîm. Cymerodd uwch aelod o'r Tîm Cefnogaeth Weinyddol (y Swyddog Cyllid a Gweithredol) ymddeoliad hyblyg hefyd gan gamu i lawr i rôl y Swyddog Cyllid a Chyfleusterau ar ôl ailstrwythuro'r tîm pan ymgymerodd un o'r Swyddogion Cefnogaeth Weinyddol cyffredinol â chyfrifoldebau ychwanegol. Dangosir y sefyllfa o ran staffio ar ddiwedd y flwyddyn yn Atodiad I.
- 4.2 Mae'r ymddeoliadau hyblyg yn ystod y flwyddyn yn enghreifftiau o'r risg gweithredol a nodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, sef fod gan TPC weithlu sy'n heneiddio ac yn lleihau o ran maint (oherwydd tuedd fach tuag i lawr o ran gofynion llwyth gwaith apelau yn y blynyddoedd diwethaf). Er i ni gymryd camau rai blynyddoedd yn ôl i recriwtio clercod tribiwnlys iau, mae pob un o'r tri a recriwtiwyd wedi gadael y gwasanaeth (yr un olaf ym mis Mawrth eleni). Bydd y Tribiwnlys yn ailasesu ei anghenion staffio yn ystod y flwyddyn i ddod, yn enwedig yng ngoleuni cynnydd sylweddol posibl yn y llwyth gwaith ar ôl cwblhau ailbriso'r Dreth Gyngor yn 2025. Mae hyfforddi clercod yn cymryd cyfnod sylweddol er mwyn i'r rhai newydd a recriwtiwyd ennill cymhwysedd llawn (hyd at ddwy flynedd). Roedd y graddedigion diwethaf a dderbyniwyd yn eu 20au hwyr yn weithwyr ardderchog, ond mae pob un wedi symud ymlaen o fewn y cyfnod dwy flynedd oherwydd uchelgeisiau gyrfa tymor hir. Bydd y Tribiwnlys yn dadansoddi ei opsiynau o ran gwella dal gafael ar y rhai newydd a dderbynnir.
- 4.3 Un o'r prif nodweddion o ran staffio eleni oedd chwilio am Brif Weithredwr newydd. Ar ddechrau'r flwyddyn, mynegodd y Prif Weithredwr presennol (Andrew Shipsides) ei ddymuniad i ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chyflwynodd ei ymddiswyddiad ffurfiol ar ddechrau mis Ionawr. Cychwynwyd ymgyrch recriwtio ym mis Hydref gan gyfweld ym mis Chwefror. Ni phenodwyd neb bryd hynny a chychwynwyd ymgyrch o'r newydd ym mis Mawrth – gyda golwg ar gynnal cyfweiliadau penodi ym mis Mai 2023. *[Diweddariad ar ôl adroddiad blynyddol: penodwyd ym mis Mai. Ymgeisydd mewnol oedd yr ymgeisydd llwyddiannus (Carolyn Dawson) – a ddaeth yn Ddarpar PSG ar 1 Gorffennaf 2023 ac yn PSG llawn ar 14 Gorffennaf (dyddiad cyflogi olaf Andrew Shipsides).]*
- 4.4 Mae cofnod salwch staff y Tribiwnlys yn dal i ddangos cyfradd absenoldeb salwch staff eithriadol o isel. Nifer gyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul aelod staff eleni oedd 1.41. Nid oedd gan bum deg naw y cant o'r staff unrhyw absenoldeb oherwydd salwch. Y cyfartaledd ar gyfer yr 80% canolog o'r staff (h.y. diddymu'r 10% uchaf ac isaf o'r ystod llawn), yn unol â gofynion y KPI perthnasol, oedd 1.30 dydd.

5 Ystadau a chyfleusterau

- 5.1 Mae gan y Tribiwnlys un swyddfa (yng Nghasnewydd). Fe'i delir ar les breifat a ddaw i ben nesaf ym mis Hydref 2024. Mae'r Tribiwnlys a'i ragflaenwyr wedi bod yn yr adeilad ers y 1980au. Cafodd ei ailwampio'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cynnwys prif swyddfa'r Tribiwnlys a'i ganolfan weinyddol; yn ogystal â hynny, mae'n gartre i un brif ystafell wrandawiadau (sydd hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion hyfforddi staff) ac un ystafell wrandawiadau / ystafell fwrdd fach. Mae saith aelod staff yn gweithio o'r fan hon. Mae gweddill y staff yn gweithio o gartref. Mae'r Tribiwnlys yn llogi mannau cyfarfod allanol mewn rhannau eraill o'r wlad pan fo angen ar gyfer gwrandawiadau.
- 5.2 Mae'r Tribiwnlys yn rhedeg system meddalwedd ffôn dros y rhyngwyd fel bod modd ateb a throsglwyddo galwadau mewnol ac allanol yn hawdd. Mae cyfrif busnes Microsoft 365 yn darparu cyfleusterau cefn swyddfa safonol, gan gynnwys ebost. Mae system rheoli apelau'r Tribiwnlys wedi cael ei datblygu'n fewnol gyda chontractiwr datblygu TG annibynnol; mae'n storio ar gwmwl ac mae hynny'n cael ei ddrychweddu ar storfa fewnol wrth gefn. Newidiwyd gliniaduron y staff eleni gan fod yr unedau blaenorol yn bum mlwydd oed.
- 5.3 Defnyddir cyfrif busnes Zoom ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau cyswllt fideo. Weithiau defnyddir Microsoft Teams ar gais y partïon.
- 5.4 Eleni, roeddem wedi cynllunio i iPads gael eu dosbarthu i'r aelodau i'w defnyddio yng ngwrandawiadau'r tribiwnlys er mwyn lleihau faint rydym yn dibynnu ar waith papur a chynyddu diogelwch data. Fodd bynnag, mae datblygu ap i wireddu hyn wedi cymryd yn hirach na'r hyn a gynlluniwyd. Bellach mae rhoi'r cyfleuster newydd hwn ar waith wedi cael ei symud i 2023-24.

6 Cyllid

- 6.1 Gwariant y tribiwnlys am y flwyddyn oedd bron i £1,069,000 (allan o gyllideb o £1,074,000). Gwariwyd 69.5% ar gostau staffio (i lawr o 71% y llynedd), a 30.5% ar gostau rhedeg gweithredol eraill (i fyny o 29%). Cymerwyd y gwarged bach o £5,000 yn ôl gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r Cytundeb Fframwaith sydd ganddi â TPC. Dangosir gwariant y flwyddyn yn fanwl yn Atodiad G.
- 6.2 Gellir priodoli'r gostyngiad bach mewn costau staffio i golli dau glerc tribiwnlys (un ym mis Mawrth 2022 a'r llall ym mis Medi 2022) gyda'r un cleric i gymryd eu lle ond yn dod i'r swydd ar ddiwedd Chwefror 2023. Fodd bynnag, mae canran y gostyngiad yn fach oherwydd codiad cyflog sylweddol a gytunwyd yn genedlaethol i'r staff eraill – gan ychwanegu ychydig o dan 5% i'r bil cyffredinol am gyflogau. Cysylltir cyflogau'r Tribiwnlys yn gontractiol â chytundeb cyflogau cenedlaethol Llywodraeth Leol.
- 6.3 Mae dyraniad cyllideb y Tribiwnlys gan Lywodraeth Cymru wedi'i osod ar yr un lefel arian (sef £1.074M) ers 2018-19. Mae'r Tribiwnlys wedi cyfrifo y bydd modd gweithredu ar yr un swm o arian yn ystod 2023-24 o dderbyn y llwythi gwaith presennol; a dyma'r swm a argymhellodd i Lywodraeth Cymru (LIC) mewn amcanestyniad cyllideb a gyflwynwyd i LIC yn Rhagfyr 2022. Yn sgil hynny dyrannwyd y swm hwnnw gan LIC fel y datganwyd yn ei llythyr dyrannu cyllideb a anfonwyd i'r Tribiwnlys yn Chwefror 2023. 2023-24 fydd y chweched flwyddyn yn olynol i'r un lefel arian gael ei chymhwyso. Un rheswm am fedru parhau gyda'r lefel yma o gyllid yn 2023-24 yw bod ad-daliad terfynol o fenthyciad a gymerwyd yn 2017-18 i gyllido cynllun dileu swyddi staff wedi cael ei wneud ym mlwyddyn yr adroddiad cyfredol. Golyga hyn fod cyllid yr arferid ei ddyrannu ar gyfer ad-daliadau benthyciad blynyddol bellach ar gael ar gyfer gwariant cyffredinol yn y flwyddyn i ddod. Er hynny, fel y nodwyd yn gynt yn yr adroddiad hwn, yn ystod y flwyddyn a ddaw bydd y Tribiwnlys yn gwneud cynlluniau i baratoi ei hun ar gyfer cynnydd mawr mewn apelau Prisio Treth Gyngor yn 2025. Bydd angen buddsoddi mewn staff newydd yn 2024-25. Bydd costau gweithredol eraill yn cynyddu hefyd er mwyn cwrdd â'r llwyth gwaith estynedig.
- 6.4 Dengys Atodiad H yr arbedion hanesyddol a wnaed gan y Tribiwnlys (flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y deng mlynedd diwethaf)¹. Dengys yr atodiad fod y Tribiwnlys, o dipyn i beth, wedi gwario llai bob blwyddyn tan 2021-22. Gwelwyd cynnydd bychan iawn mewn gwariant yn y ddwy flynedd diwethaf sy'n arwydd na all ffrwyno costau chwyddiannol cyffredinol mwyach. Hyd yn oed pe na bai angen cynyddu darpariaeth y flwyddyn nesaf er mwyn paratoi ar gyfer y newid llwyth gwaith yn sgil apelau Treth Gyngor 2025, mae'n debygol fod y Tribiwnlys wedi cyrraedd pwynt erbyn hyn lle bydd angen cynnydd mewn adnoddau er mwyn cynnal y gofynion llwyth gwaith presennol yn 2024-25. Fodd bynnag, er mwyn cwrdd â her Ailbrisio Treth Gyngor 2025, bydd angen llawer mwy.

¹ Defnyddir y flwyddyn 2013-14 fel gwaelodlin gan mai dyma'r flwyddyn olaf pan na chafodd y cyllid a ddyrannwyd i'r Tribiwnlys ei leihau neu ei bennu ar ffigur arian y flwyddyn flaenorol.

Datganiadau

(angenrheidiol dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Chynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os y'u penodir, hyd at dri pherson a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygiad) [WSI 2017 Rhif 941 (W 234)].

Rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau o'r Tribiwnlys a chânt eu hethol gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Efallai y byddan nhw'n sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd tymor.

Manylir ar gyfrifoldebau cyfunol y Cyngor Llywodraethu, cyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru a benodir gan Lywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir o dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys Prisio. Mae Prif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys yn arwyddo ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethol y Tribiwnlys yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar Ddinesydd Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).



Carolyn Dawson
Prif Weithredwr TPC

Datganiad Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifeg

Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a gofynion rheoli ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol a chofnodion Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn cyfeirio atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifeg Ychwanegol dynodedig o fewn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Mae'r Swyddog Cyfrifeg Ychwanegol yn ei dro yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Caiff y Prif Weithredwr ddirprwyo, i weithwyr y Tribiwnlys, gweinyddu ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd ond mae'n parhau'n bersonol gyfrifol ac yn atebol amdanynt.



Carolyn Dawson
Prif Weithredwr TPC

Atodiadau

- A Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd**
- B Llwyth gwaith – ffigurau cymharol pum mlynedd diwethaf**
- C Data Clirio Apêl 2022/2023**
- D Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) – tabl canlyniadau**
- E Diffiniadau KPI ar gyfer 2023/24**
- F Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2023)**
- G Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2022/2023**
- H Cyfanswm y gwariant – ffigurau cymharol y deng mlynedd diwethaf**
- I Strwythur y Sefydliad**

Nifer o gyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd (ynghyd â chyfartaleddau fesul aelod o dîm Clercod y Tribiwnlys):

Atodiad A

Nifer cyfarfodydd y tribiwnlys		Nifer o aelodau yn nhîm Clercod y Tribiwnlys = 7.5					
Ebrill	18						
Mai	18	36	at ddiwedd Mai	4.80	fesul clercc	2.40	fesul clercc y mis
Mehefin	15						
Gorffennaf	14	65	at ddiwedd Gorffennaf	8.67	fesul clercc	2.17	fesul clercc y mis
Awst	6						
Medi	16	87	at ddiwedd Medi	11.60	fesul clercc	1.93	fesul clercc y mis
Hydref	15						
Tachwedd	16	118	at ddiwedd Tachwedd	15.73	fesul clercc	1.97	fesul clercc y mis
Rhagfyr	15						
Ionawr	15	148	at ddiwedd Ionawr	19.73	fesul clercc	1.97	fesul clercc y mis
Chwefror	14						
	16	178	at ddiwedd Mawrth	23.73	fesul clercc	1.98	fesul clercc y mis
CYFANSWM	178						

Achosion a Restrwyd	2017 AAN	AAN Blaenorol	AAN Arbenigol	Rhestr TC	ATC	GDG	Hysbysiadau Cwblhau	Adolygiadau o Benderfyniadau	CYFANSWM	Nifer ar gyfartaledd fesul clercc
Ebrill	192	7	0	68	17	6	0	1	291	38.80
Mai	118	57	0	141	8	0	0	0	324	43.20
Mehefin	218	0	0	80	3	12	0	4	317	42.27
Gorffennaf	134	0	0	92	10	5	0	1	242	32.27
Awst	106	0	0	56	2	2	0	2	168	22.40
Medi	273	15	0	80	5	3	0	2	378	50.40
Hydref	125	0	64	86	10	0	0	1	286	38.13
Tachwedd	321	0	55	124	6	0	0	1	507	67.60
Rhagfyr	350	11	15	99	4	3	0	0	482	64.27
Ionawr	268	1	95	91	6	0	0	0	461	61.47
Chwefror	382	0	110	63	5	0	0	0	560	74.67
	385	0	142	91	6	3	0	0	627	83.60
CYFANSWM	2872	91	481	1071	82	34	0	12	4643	619.07

		Prisio Ardrethu Annomestig		Prisio y Dreth Gyngor		Holl apelau eraill	
2018-19							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	8114		499		54	
	Derbyniwyd	6369		1138		95	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	4093	80%	824	63%	22	28%
	Penderfynwyd	1034	20%	476	37%	58	73%
2019-20							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	9356		337		69	
	Derbyniwyd	3986		1037		93	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	3039	85%	742	76%	35	28%
	Penderfynwyd	555	15%	235	24%	89	72%
2020-21 (COVID) B1							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	9748		397		38	
	Derbyniwyd	19591		1178		143	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	5250	96%	746	83%	22	31%
	Penderfynwyd	202	4%	150	17%	49	69%
2021/22 (COVID) B2							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	23887		679		110	
	Derbyniwyd	3538		1157		113	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	4220	90%	883	66%	25	17%
	Penderfynwyd	495	10%	456	34%	119	83%
2022-23							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	22710		497		79	
	Derbyniwyd	3184		1112		95	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	19,020	98%	807	66%	28	25%
	Penderfynwyd	359	2%	409	34%	86	75%
Cariwyd ymlaen		6515		393		60	

Nodiadau:

- Mae ffigurau Prisio AAN a TC yn cynnwys apelau yn erbyn Hysbysiadu Annilyrwydd a gyhoeddwyd gan yr ASB.
- Mae "Yr holl apelau eraill" yn cynnwys: Atebolrwydd TC, gostyngiad TC, hysbysiadu cwblhau TC ac AAN, hysbysiadu cosb TC ac AAN, a phob cais ffurfiol am adolygiad o benderfyniad o unrhyw fath o apêl.
- Achoswyd y nifer eithriadol o fawr o apelau ardrethu a dderbyniwyd yn 2020-21 gan filoedd lawer o apelau yn cael eu gwneud ar sail Newid Amgylchiadau Perthnasol (MCC) oherwydd effaith COVID-19. Cafodd y mwyafrif helaeth o'r rhain eu tynnu'n ôl gan apelyddion yn 2022-23 oherwydd bod newid yn y gyfraith yn eu gwneud yn aneffeithiol.

Ystadegau Apêl / Appeal statistics

01/04/22 - 31/03/23

Treth Gyngor / Council Tax	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation	490	1108	803	402	393
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice	7	4	4	7	0
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	0	0	0	0	0
Hysbysiad Cwblhau / Completion Notice	0	0	0	0	0
Atebolrwydd / Liability	45	61	16	54	36
Gostyngiad / Reduction	33	19	11	18	23
Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews	0	13	0	13	0
Cyfansymiau / Totals	575	1205	834	494	452

Ardrethu Annomestig / Non-domestic Rating	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation 2017	21902	3174	18442	308	6326
Prisio / Valuation 2010	447	2	249	28	172
Prisio / Valuation 2005	16	0	9	0	7
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2017)	343	1	314	23	7
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2010)	2	7	6	0	7
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	1	1	1	0	1
Hysbysiad Cwblhau / Completion Notice	0	0	0	0	0
Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews	0	1	0	1	0
Cyfansymiau / Totals	22711	3186	19021	360	6516

Prif gyfansymiau / Grand totals	23286	4391	19855	854	6968
--	-------	------	-------	-----	------

Dangosyddion Perfformiad Allweddol --- tabl canlyniadau

Atodiad D

Mesur Perfformiad	Targed 2022/23	Canlyniad 2022/23	Targed ar gyfer 2023/24	Rheswm dros unrhyw newid targed / neu fanylder/gwybodaeth bellach
Hysbysiadau gwrandawiaidau, mewn perthynas â'r rhestr tro cyntaf o apelau Ardrethu Annomestig, i'w cyhoeddi i bartïon o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed rhaglennu ASB.	95%	74.1%	95%	766 allan o 1,107 o restrau tro cyntaf. Mae'r nifer cymharol uchel o achosion a restrir yn wreiddiol dros 8 wythnos ar ôl dyddiad targed yn etifeddiaeth o'r flwyddyn COVID flaenorol.
Apelau Treth Gyngor (priso ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys	95%	89.1%	95%	Cliriwyd 413 yn y cyfnod '>12mis 67 heb eu clirio ar ddiwedd y cyfnod '>12mis (allan o 2,041 o achosion ar gael i'w rhestru). Mae hyn yn golygu cyfradd o 23.5% ar gyfer achosion sy'n hŷn na 12 mis cyn eu clirio. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain o ganlyniad i COVID yn amharu ar y rhaglen rhestrau arferol yn y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol.
Cyhoeddir rhesymau ysgrifenedig dros gyhoeddi penderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y gwrandawriad apêl	95%	97.2%	95%	Cyflwynwyd 52 ar ôl 28 diwrnod (allan o 1,055 o benderfyniadau)
Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion AAN a benderfynwyd	<0.50%	0.28%	<0.50%	2 gais o 498 o benderfyniadau
Adolygiad PTC o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion PTC	<2.0%	1.2%	<2.0%	8 cais o 453 penderfyniad
Adolygiad ATC o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion ATC a benderfynwyd	<5.0%	11.1%	<5.0%	4 cais o 81 o benderfyniadau
Penderfyniadau a gyfeiriwyd at lysoedd uwch.	<0.50%	0.36%	<0.5%	3 atgyfeiriad o 1,055 o benderfyniadau
Penderfyniadau sy'n destun cwyn gan bartïon	<1.0%	dim	<1.0%	2 gŵyn o 1,055 o benderfyniadau
Nifer o honiadau a seiliau da iddynt a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys	dim	dim	dim	
Nifer o honiadau cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg a seiliau da iddynt yn erbyn y tribiwnlys	dim	dim	dim	
Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch sydd ddim wedi bod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn.	<5 days	1.30	<5 days	Doedd gan y rhan fwyaf o staff ddim dyddiau o absenoldeb salwch.

Noder: Nid ystyriwyd bod unrhyw adolygu yn angenrheidiol i KPI y flwyddyn flaenorol.

Diffiniadau KPI

- (a) 95% o hysbysiadau gwrandawiadau, mewn perthynas â'r rhestr tro cyntaf o apelau Ardrethu Annomestig, i'w cyhoeddi i bartïon o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed rhaglennu ASB.
- (b) 95% o apelau Treth Gyngor (priso ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys
- (c) Cyhoeddir 95% o holl resymau ysgrifenedig dros gyhoeddi penderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y gwrandawriad apêl
- (d) Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 0.5% o'r achosion a benderfynwyd
- (e) Adolygiad PTC o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 2% o'r achosion a benderfynwyd
- (f) Adolygiad ATC o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na % o'r achosion a benderfynwyd
- (g) Llai na 0.5% o holl benderfyniadau i'w cyfeirio at lysoedd uwch.
- (h) Llai na 1.0% o'r holl benderfyniadau i fod yn destun cwyn gan bartïon
- (i) Dim honiadau a seiliau da iddynt yn cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- (j) Dim honiadau cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg a seiliau da iddynt yn erbyn y tribiwnlys
- (k) Nid yw'r ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i fod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn.

Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (fel ar 31 Mawrth 2023)

Oed	O dan 30		30 -39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80	
Rhywedd	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Cyfanswm	0	0	0	0	1	0	5	1	14	8	21	5	15	2

Cyfanswm	
G	B
56	16

Canran o'r holl aelodaeth	0.0%	0.0%	1.4%	8.3%	30.6%	36.1%	23.6%
---------------------------	------	------	------	------	-------	-------	-------

77.8%	22.2%
-------	-------

Nodyn

- 1 Mae cyfanswm yr aelodaeth wedi gostwng o 71 y llynedd i 72. Mae'r nifer hwn yn dal yn ddigonol ar gyfer lefelau llwyth gwaith cyfredol.
- 2 Cyfanswm nifer yr aelodau sy'n gwasanaethu fel aelodau cynghorau lleol yw 4. Nid yw'r aelodau hyn byth yn cael eu trefnu i eistedd ar wrandawiadau sy'n gysylltiedig â'u hardal cyngor.

Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2022-2023 (£oedd)

Atodiad G

Valuation Tribunal for Wales Expenditure 2022-2023 (£s)

Maes gwariant Area of expenditure	2022/23		2021/22	
	Swm / Amount	Canran / Percentage	Swm / Amount	Canran / Percentage
Costau staff (ac eithrio pensiynau) Staff costs (excluding pensions)	630,728	58.99%	651,257	61.12%
Costau pensiynau / Pension costs	113,184	10.59%	108,213	10.15%
Is-gyfanswm / Subtotal	743,912	69.57%	759,470	71.27%
Costau swyddfeydd / Office accommodation	77,968	7.29%	80,654	7.57%
Gwariant ar gyfriaduron / Computing	71,993	6.73%	92,051	8.64%
Gweinyddiaeth ganolog / Central administration	44,612	4.17%	35,417	3.32%
Tribiwnlysoedd / Tribunals	22,433	2.10%	25,760	2.42%
Llywodraethu / Governance	3,020	0.28%	1,685	0.16%
Hyfforddiant aelodau / Membership training	53,788	5.03%	17,546	1.65%
Hyfforddiant staff / Staff training	16,511	1.54%	18,031	1.69%
Ad-daliad benthyciad/ Loan repayment	35,000	3.27%	35,000	3.28%
Is-gyfanswm / Subtotal	325,325	30.43%	306,144	28.73%
Cyfanswm / Total	1,069,237		1,065,614	

Nodyn: Gwnaeth benthyciad o £175,000 o raglen Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru gyllido cynllun dileu swyddi'n wirfoddol yn 2017/18. Mae'r benthyciad yn un di-log ac yn ad-daladwy dros bum mlynedd (ar £35,000 y flwyddyn). Dyma Blwyddyn 5 yr ad-daliadau.

Noder: A loan of £175,000 from Welsh Government's Invest to Save programme financed a voluntary redundancy scheme in 2017/18. The loan is interest free and repayable over five years (at £35,000 per year). This is Year 5 of the repayments.

Cyfanswm y gwariant – ffigurau cymharol y deng mlynedd diwethaf

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm gwariant blynyddol (£)	Canran arbedion o'i gymharu gyda 2013/14	Costau staffio blynyddol (£)	Canran y cynnydd neu leihad ar y flwyddyn flaenorol	Costau cynnal ac eithrio staffio (£)	Canran y cynnydd neu leihad ar y flwyddyn flaenorol
Financial year	Total annual spend (£)	Percentage saving compared to 2013/14	Annual staff costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year	Non-staffing running costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year
2013-14	1,358,330		811,711		546,619	
2014-15	1,305,586	3.88%	826,208	+1.79%	479,378	-12.30%
2015-16	1,249,787	7.99%	839,169	+1.57%	410,618	-14.34%
2016-17	1,203,584	11.39%	843,787	+0.55%	359,796	-12.38%
2017-18	1,111,856	18.15%	803,889	-4.73%	307,967	-14.41%
2018-19	1,072,325	21.06%	715,954	-10.94%	356,371	+15.72%
2019-20	1,070,862	21.16%	720,629	+0.65%	350,233	-1.72%
2020-21	1,051,379	22.60%	709,042	-1.61%	342,337	-2.25%
2021-22	1,065,614	21.55%	759,470	+7.11%	306,144	-10.57%
2022-23	1,069,237	21.28%	743,912	-2.03%	325,325	+6.27%

Nodiadau


Mae'r tabl uchod yn gofnod o'r arbedion a gyflawnwyd dros y deng mlynedd diwethaf. Mae gwariant wedi gwastatáu ar ôl sawl blwyddyn o arbedion blynyddol mawr. Fodd bynnag, mae arwyddion bellach y bydd cynnydd mewn costau byw yn y dyfodol ar gyfer staffio a gwariant gweithredol arall yn golygu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth gyllidebol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r ddarpariaeth gyllidebol wedi'i rhewi am chwe blynedd (gan gynnwys 2023-24).

Notes


The above table is a record of savings achieved over the last ten years. Expenditure has plateaued after several years of major annual savings. However there are now signs that future cost of living increases for both staffing and other operational expenditure will necessitate an increase in budgetary provision in future years. The budgetary provision has been frozen for six years (including 2023-24).

Strwythur y sefydliad

Y Tribiwnlys



Cyngor Llywodraethu



Staffio

